**ELL 11-02(mins)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 12 Mehefin 2002

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Gareth Jones, Cadeirydd | Plaid Cymru | Conwy |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Cynog Dafis | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Delyth Evans | Llafur | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Helen Mary Jones | Plaid Cymru | Llanelli |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |

**Ymddiheuriadau**

Alun Pugh, y Dirprwy Weinidog

Janice Gregory

**Dirprwyadau**

Delyth Evans dros Alun Pugh, y Dirprwy Weinidog

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Yr Adran Addysg a Hyfforddiant |
| Keith Davies | Pennaeth, Yr Is-adran Safonau a Pherfformiad |

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Ann Limb | Prif Weithredwr – Y Brifysgol i Ddiwydiant |
| Helen Milner | Cyfarwyddwr Dysgu Dosbarthedig a Gweithrediadau – Y Brifysgol i Ddiwydiant |
| Joanne Thomas | Rheolwr Datblygu – Y Brifysgol i Ddiwydiant, Cymru |
| Elen Rhys | Cyfarwyddwr – Y Coleg Digidol |
| Rhodri Evans | Pennaeth Gweinyddu – Y Coleg Digidol |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Catrin Redknap | Ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor ar gyfer yr adolygiad o'r Gymraeg mewn Addysg |

| | |
|---|---|
| | |

**Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig; mae ei wraig yn Athrawes Gofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig; mae ei g•r yn ddarlithydd coleg ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch |
| Gareth Jones | Athro Cofrestredig; Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Aelod o Lys Prifysgol Cymru |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |
| Mick Bates | Athro Cymwysedig; mae ei wraig yn Bennaeth Ysgol, yn Arolygydd Ysgolion, yn aelod o bwyllgorau ACCAC ac Estyn |
| Jonathan Morgan | Llywodraethwr Ysgol; Aelod o Lys Prifysgol Cymru |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwr Ysgol |
| Helen Mary Jones | Athrawes Gofrestredig |
| Alun Pugh | Mae ei wraig yn ddarlithydd coleg |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1. Croesawodd y Cadeirydd Delyth Evans a oedd yn dirprwyo dros Alun Pugh.

0.2 Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor a'r aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod a gofynnodd i'r Aelodau a oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant newydd. Datganodd Helen Mary Jones ei bod yn athrawes gofrestredig.

0.3 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Pwyllgor am ddau ymrwymiad swyddogol i ddod:

- Agor arddangosfa grefftau yng Ngholeg Menai
- Cyflwyno gwobrwyon ar ddiwrnod gwobrwyo Blwyddyn mewn Diwydiant yng Nghanolfan Busnes Conwy

Yr oedd y Pwyllgor yn fodlon i'r Cadeirydd ymbresenoli ynddynt.

**Eitem un: Adroddiad ar gynnydd gan y Brifysgol i Ddiwydiant a'r Coleg Digidol**

1. Siaradodd Ann Limb ac Elen Rhys ar sail eu cyflwyniadau PowerPoint. Wedyn gofynnodd y Cadeirydd am gwestiynau.
2. Codwyd y materion a ganlyn yn y drafodaeth:

- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod sut yr oedd y Brifysgol i Ddiwydiant a'r Coleg Digidol yn sicrhau cydweithredu yn eu gwaith ac yn osgoi dyblygu. Gofynnwyd i'r cyflwynwyr sut yr oeddent yn diffinio gwahanol rolau'r ddau gorff a'r dulliau darparu (h.y. teledu digidol a'r Rhyngrwyd). Dywedodd y Brifysgol i Ddiwydiant eu bod yn darparu ar lein yn bennaf, drwy'r Rhyngrwyd. Yr oedd y Brifysgol i Ddiwydiant, Cymru a'r Coleg Digidol yn bartneriaid allweddol ac yr oedd ganddynt femorandwm o gyd-ddealltwriaeth: nid oedd bwriad i ddarlledu cyrsiau *Learn Direct* y Brifysgol i Ddiwydiant ar deledu digidol, ac nid oedd y Coleg Digidol yn bwriadu defnyddio'r Rhyngrwyd. Yr oedd y ddau gorff yn cwrdd yn rheolaidd i rannu arbenigedd. Câi'r adnoddau eu llawn ddefnyddio yng Nghymru gan fod y Coleg Digidol, a oedd yn bartner allweddol, yn meddu ar bresenoldeb a'i galluogai i gyrraedd pobl yng Nghymru ac yr oedd y Brifysgol i Ddiwydiant yn meddu ar yr arbenigedd priodol. Eglurodd y Coleg Digidol fod modd addasu'r trefniadau ynghylch cyrsiau band llydan, a ddarperid i golegau lleol, yn unol â hynny. Yr oedd y Coleg Digidol yn defnyddio arbenigedd dysgu'r Brifysgol i Ddiwydiant ar y we. Yr oedd y ddau gorff yn cwrdd yn aml i rannu eu harbenigedd. Yr oedd y Coleg Digidol wedi cynnal ymchwil, ar ran y Cynulliad Cenedlaethol, i'r posibiliad o ehangu'r mynediad i ddysgu gydol oes a sut y gellid cyflawni hynny. Yr oedd y dystiolaeth yn dangos bod pobl am weld mwy o ddefnydd o'r Rhyngrwyd a theledu rhyngweithiol.

- Gofynnodd yr Aelodau a oedd y naill gorff neu'r llall wedi profi unrhyw rwystrau, fel materion hawlfraint, i rannu defnyddiau. Hysbyswyd yr Aelodau nad oedd mater hawlfraint yn berthnasol os oedd perchnogaeth lawn ar ddeunydd. Fodd bynnag, yn achos rhai partneriaethau a rannai ddefnyddiau, mae'n bosibl y byddai angen trwydded trydydd parti.

- Dywedodd rhai Aelodau fod y cyhoedd wedi bod yn araf i dderbyn teledu digidol a gofynasant a oedd hyn yn llesteirio gwaith cyrff fel y Coleg Digidol. Clywodd y Pwyllgor fod y cwmnïau mawr a oedd yn datblygu teledu digidol yn mynd yn brin o arian ac, o ganlyniad, yr oedd arafwch yn y datblygiadau yn y maes hwn. Yr oedd y diffyg derbyniad yn ganlyniad i broblemau technegol, yn ôl pob tebyg. Yr oedd y Brifysgol i Ddiwydiant a'r Coleg Digidol yn teimlo y byddai'r broblem hon yn derbyn sylw yn y dyfodol agos, wrth i'r dechnoleg wella.

- Gofynnwyd i gyflwynwyr y Brifysgol i Ddiwydiant beth oedd y gwahaniaeth rhwng cyrsiau *Learn Direct* a'r rhai a gynigid gan ddarparwyr eraill, yn enwedig mewn cysylltiad â chyrsiau Busnes a Thechnoleg Gwybodaeth. Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau gael gwybod pa mor hawdd ydoedd i rywun a oedd heb ystyried addysg bellach neu uwch o'r blaen gael mynediad i ddarpariaeth *Learn Direct.* Credai'r Brifysgol i Ddiwydiant, Cymru fod y mynediad 24 awr, a strwythur modiwlaidd a hygyrchedd a hyblygrwydd y cyrsiau'n peri bod *Learn Direct* yn wahanol ac yn ddeniadol i ddysgwyr. Gellid adio'r modiwlau cwrs at ei gilydd wrth i'r dysgwr fynd yn ei flaen. Hefyd, gallai dysgwyr ymweld â'r canolfannau dysgu neu fynd ymlaen â'u gwaith gartref.
- Dywedwyd wrth yr Aelodau fod modiwlau priodol wedi'u cynllunio ar gyfer cwsmeriaid busnes drwy ymgynghori â busnesau bach a chanolig eu maint. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod tua 70 o ganolfannau *Learn Direct* yng Nghymru, mewn colegau addysg bellach yn bennaf, er bod rhai mewn adeiladau ar y stryd fawr ac mewn llyfrgelloedd.

- Bu rhywfaint o drafodaeth ynghylch defnyddio offer radio 802.11B. Eglurodd y Brifysgol i Ddiwydiant, Cymru fod y dechnoleg hon yn gyfrwng i gyflymu a gwella ansawdd dysgu o bell, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig, hyd nes y byddai technoleg band llydan ar gael yn fwy cyffredinol. Holodd yr Aelodau a ddefnyddiwyd arian y Cynulliad Cenedlaethol i ariannu'r cynllun peilot. Hysbyswyd yr Aelodau mai'r Adran Masnach a Diwydiant a ddarparodd yr arian. Yr oedd prosiect ar hyn o bryd yn Nyffryn Ogwen lle'r oedd 500 o deuluoedd yn cymryd rhan mewn ymchwil i adolygu gwariant yn yr economi leol. Yr oedd y Brifysgol i Ddiwydiant, Cymru a'r Coleg Digidol yn cynnig eu gwasanaethau i gymunedau i'w helpu i ddiwallu eu hanghenion o ran dysgu a hyfforddi.

- Gofynnodd yr Aelodau i'r cyflwynwyr a ellid targedu'r sectorau gwirfoddol. Cytunodd y Brifysgol i Ddiwydiant, Cymru y dylid eu targedu. Yn achos rhai dysgwyr, gallai materion a oedd yn ymwneud â chymorth ac arian eu rhwystro rhag ymgymryd â chyfleoedd dysgu. Yr oedd *Learn Direct* wedi profi'n boblogaidd iawn gan fod tua 25,000 o ddysgwyr wedi cofrestru bob wythnos yn y 10 wythnos diwethaf yng Nghymru a Lloegr. Bu'r Brifysgol i Ddiwydiant, Cymru'n cydweithio'n agos â'i phartneriaid yn y sector gwirfoddol ac yr oedd yn asesu sut y gallai'r partneriaid hyn gysylltu â'r Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant. Cyfeiriwyd at brosiect SWITCH sydd wedi'i leoli yn Ne Caerdydd. Mae'r fenter hon yn helpu unigolion o gymunedau a allgaewyd i ddychwelyd i addysg a hyfforddiant.

- Gofynnwyd i'r ddau gorff a fyddent yn defnyddio system Lloeren BT ar gyfer gwasanaethau band llydan. Yr oedd BT dan gytundeb â *Learn Direct* i werthu'r gwasanaeth yn uniongyrchol i ddysgwyr, y byddid yn codi tâl arnynt drwy eu bil teleffon: *Learn Direct* a fyddai'n darparu'r cynnwys dysgu. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod BT a NTL dan gytundeb â'r Coleg Digidol.

- Gofynnwyd i'r Brifysgol i Ddiwydiant, Cymru a'r Coleg Digidol sut yr oedd eu gwaith yn ategu gwaith y Gr•p Ymgynghorol TGCh a'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu, Cymru. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod rhai materion, mewn cysylltiad â *Learn Direct*, yn gorgyffwrdd â gwaith y Gr•p Ymgynghorol a'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu, Cymru ond eu bod yn ategu ei gilydd yn gyffredinol. Cytunai'r Coleg Digidol gan ddweud y gallai eu hadnoddau fod yr un mor berthnasol a defnyddiol i ddisgyblion ysgol, er iddynt gael eu creu ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn bennaf. Yr oedd y Coleg Digidol yn cydweithio'n agos ag Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol ar faterion a oedd yn gysylltiedig â thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

    1. Diolchodd y Cadeirydd i'r Brifysgol i Ddiwydiant a'r Coleg Digidol am eu cyflwyniadau ac awgrymu y dylid caniatáu amser yn rhaglen y Pwyllgor i gael adroddiadau ar gynnydd yn y dyfodol.

**Eitem Dau: Adolygiad Polisi – Y Gymraeg mewn Addysg – Ystyried yr adroddiad drafft**

***Papur: ELL 11-02(p.2)***

2.1 Hysbysodd y clerc y Pwyllgor ei fod wedi cynnwys sylwadau ac awgrymiadau blaenorol yr Aelodau i gynhyrchu'r testun drafft a oedd o'u blaen yn awr.

2.2 Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad fesul tudalen. Cynigiodd y Cadeirydd hefyd y dylai'r Aelodau ystyried beth fyddai eu hargymhellion allweddol a hysbysu'r clerc cyn y cyfarfod nesaf. Er mwyn hwyluso hynny, byddai'r clerc yn cynhyrchu rhestr wedi'i rhifo o'r argymhellion.

2.3 Dywedodd y clerc y byddai'n ystyried sylwadau ac awgrymiadau'r Aelodau ac yn dosbarthu adroddiad drafft diwygiedig, a'r newidiadau wedi'u haroleuo, yn gynnar yn yr wythnos dilynol. Câi'r Pwyllgor un cyfle pellach i ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod nesaf ar 26 Mehefin. Ond, wedi hynny, byddai'r cyfle i wneud newidiadau sylweddol yn gyfyngedig, oherwydd yr angen i gyfieithu'r adroddiad yn barod i'w gyflwyno ar 2 Gorffennaf, ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Gorffennaf.

**Eitem Tri: Cofnodion cyfarfod 22 Mai.**

***Papur: ELL 10-02(mins)***

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod, ar yr amod y bydd datganiad o fuddiant Helen Mary Jones fel athrawes gofrestredig wedi'i gynnwys.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mehefin 2002**